

# Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru

## Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru

---

Sicrhau Model Cyflawni Cynaliadwy ar  
gyfer Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid  
yng Nghymru

Adroddiad terfynol

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu i sôn am eich profiad o wasanaethau ieuenctid.

Y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro  
Cangen Ymgysylltu Ieuenctid  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [youthworkboard@llyw.cymru](mailto:youthworkboard@llyw.cymru)

 [@LIC\\_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

## Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru

### Rhagair

Pan wnaethom ddechrau ar ein gwaith fel Bwrdd, y dasg a bennwyd inni gan Lywodraeth Cymru oedd datblygu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Roedd y cylch gwaith polisi yn glir a'n penderfyniad cyntaf oedd y byddem yn cydweithio â phobl ifanc a'r sector gwaith ieuenctid.

Rydym yn dal i fod yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi gwneud cyfraniad. Mae'r argymhellion rydym yn eu hamlinellu yma wedi'u llywio gan yr holl leisiau a gymerodd ran.

Wrth gwrs, wrth inni ddechrau ar ein tasg, nid oedd gennym unrhyw syniad y byddai'r pandemig yn gofyn mwy gennym. Gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, gwnaethom ymdrechu i gefnogi'r sector gwaith ieuenctid yng Nghymru. Hoffwn dalu teyrnged i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd am eu hymroddiad a'u hymrwymiad i bobl ifanc a gwaith ieuenctid.

Roedd pawb ar y Bwrdd eisoes yn gwybod bod y sector gwaith ieuenctid, sy'n gweithio ar sail awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ifanc. Drwy gydol argyfwng Covid-19, mae ymateb gwaith ieuenctid, i gefnogi pobl ifanc drwy heriau mawr, wedi bod yn rhagorol. Yn ddiaw, mae wedi dangos y cyfraniad y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud yng Nghymru.

Ac eto, mae sail ddeddfwriaethol a sail gyllido gwaith ieuenctid yn wan ac yn achosi problemau. O ganlyniad, mae argaeledd gwasanaethau gwaith ieuenctid wedi lleihau'n raddol. Dychmygwch beth y gallai gwaith ieuenctid ei gyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru petai ei sylfeini yn gadarn.

Ein gobaith yw y caiff yr argymhellion hyn eu gweithredu ac y caiff cynllun gweithredu ei roi ar waith i'w datblygu. Y nod bellach yw sicrhau newid a chyflawni. Bydd hyn yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio. Gall newid fod yn heriol ond, os byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion pobl ifanc yng Nghymru, bydd y sector gwaith ieuenctid yn ffynnu.

Mae'r argymhellion rydym yn eu hamlinellu yma yn gyflawnadwy. Rydym wedi creu momentwm go iawn ar gyfer newid ac mae pobl ifanc Cymru yn haeddu darpariaeth gwaith ieuenctid sy'n diwallu eu hanghenion.

Keith Towler

Cadeirydd – Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno'r argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Gwaith Ieuentid Dros Dro. Mae'n adeiladu ar yr adroddiad drafft a gyhoeddwyd ar ddechrau 2021, yn ogystal â'r adborth helaeth a roddwyd gan unigolion a sefydliadau ar yr argymhellion drafft a wnaed ynddo.

Mae'n amlwg bod gan wasanaethau gwaith ieuentid lawer i'w gynnig i bobl ifanc Cymru, y cymunedau y maent yn byw ynddynt a chymdeithas yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Ond, mae yr un mor amlwg eu bod yn gweithredu mewn ffordd anghynaliadwy ar hyn o bryd. Mae'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn nodi ffyrdd ymarferol a chyflawnadwy o greu model cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuentid yng Nghymru.

Mae'r argymhellion wedi'u rhannu'n ddwy adran. Mae a wnelo'r set gyntaf o argymhellion â materion llywodraethu ac mae'r ail yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau gwaith ieuentid effeithiol. O ran llywodraethu, rydym yn argymhell y canlynol:

1. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strwythur llywodraethu a gaiff ei arwain gan bobl ifanc ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuentid yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn gwrandao ar bobl ifanc ac yn ystyried eu barn wrth iddi ddatblygu gwasanaethau iddynt.
2. Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu neu sefydlu sail ddeddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuentid yng Nghymru.
3. Dylai Llywodraeth Cymru benodi Gweinidog Plant a Phobl Ifanc yn y Cabinet a chanddo bortffolio penodol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuentid. Dylai'r Gweinidog arwain proses o bennu gweledigaeth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.
4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad annibynnol o ddigonolrwydd, tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd cyllid a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuentid ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, er mwyn asesu i ba raddau y mae canlyniadau yn cael eu cyflawni a'r effaith ar bobl ifanc.
5. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuentid yng Nghymru.
6. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaethau cyflawni rhanbarthol i gefnogi gwaith cyflawni'n lleol.
7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith i gefnogi arloesi mewn gwasanaethau gwaith ieuentid yng Nghymru er mwyn gwella safonau yn y sector.
8. Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cau'r bylchau mewn meini prawf cofrestru.

O ran cyflawni, rydym yn argymhell y canlynol:

9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i gomisiynu gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth i Gymru, fel rhan o gynnig digidol i bobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith ieuentid.
10. Dylai Llywodraeth Cymru lansio Cynllun Hawliau Pobl Ifanc.
11. Dylai Llywodraeth Cymru a'r sector gwaith ieuentid gydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, o ran mynediad at wasanaethau gwaith

ieuenctid yng Nghymru, ac mewn perthynas â'r rôl y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae o ran mynd ati i herio agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol mewn cymdeithas.

12. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai hefyd sicrhau mai un o flaenoriaethau allweddol y Corff Cenedlaethol fydd hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.
13. Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei hymrwymiad i gefnogi a datblygu'r proffesiwn gwaith ieuenctid gyda strwythur gyrfaedd sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen.
14. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaethau gwaith ieuenctid dan frand Cymru ac adnodd i gydgysylltu a hyrwyddo cyfathrebu o fewn y sector a rhwng y sector a'i bartneriaid.

Mae angen gweithredu ar yr argymhellion hyn ar fyrder fel ffordd o greu model mwy cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid i bobl ifanc yng Nghymru. Bydd rhai o'r argymhellion yn cymryd mwy o amser ond mae hefyd yn bwysig cynnal y momentwm gyda'r rhain. Mae'n anochel y bydd cost yn gysylltiedig â gweithredu ar yr argymhellion hyn ond mae'n bris gwerth ei dalu, yn ein barn ni, o ystyried y cyfraniad amhrisiadwy y mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn ei wneud at fywydau pobl ifanc Cymru.

## Cynnwys

	Adran	
	Rhagair	1
	Crynodeb gweithredol	2
1	Cyflwyniad	5
2	Argymhellion	8
2.1	Llywodraethu	9
2.2	Cyflawni	21
3	Amserlen a chost	32

## 1 Cyflwyniad

Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn dangos eu gwerth a'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud i fywydau pobl ifanc bob dydd. Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn darparu neu'n hwyluso:

- manau diogel, cydberthnasau a gweithgareddau lle y gall pobl ifanc ffynnu a mwynhau eu hunain, teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, dysgu sut i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau a chael gwybodaeth a chymorth i wneud dewisiadau cadarnhaol;
- amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau addysgol gwahanol, sy'n herio'r sefydliadau a'r bobl ifanc eu hunain er mwyn gwella eu datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol;
- mynediad at gyngor a gwybodaeth berthnasol a dibynadwy am hawliau a chyfleoedd, gan alluogi pobl ifanc i ddod yn eiriolwyr dros newid cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc eraill, eu cymunedau a Chymru.

Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid da yn cynnig cyfleoedd i bob person ifanc, gallant eu cefnogi drwy ddatblygiadau pwysig yn eu bywydau, eu helpu i ddeall eu hawliau a'u hannog i ddatblygu gwybodaeth fel unigolion. Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid hefyd yn darparu cymorth, diogelwch a help hollbwysig i bobl ifanc pan fydd ei angen arnynt fwyaf.

Yn ogystal â bod yn bwysig ac yn werthfawr yn eu rhinwedd eu hunain, mae gwasanaethau gwaith ieuenctid effeithiol yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni rhai o'i nodau polisi ehangach, yn arbennig:

- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*. Mae cefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid yn helpu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ei saith nod llesiant: 'Cymru lewyrchus' o ganlyniad i helpu pobl ifanc i ddatblygu a gwella eu sgiliau; 'Cymru gydnherth' drwy annog pobl ifanc yng Nghymru i ddod yn fwy cydnherth fel unigolion a chyfrannu at gydnherthedd cymdeithas yng Nghymru yn fwy cyffredinol; 'Cymru iachach' drwy gynnig cyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau corfforol a gweithgareddau awyr agored; 'Cymru sy'n fwy cyfartal' drwy roi cyfleoedd newydd i grwpiau o bobl ifanc wedi'u hymyleiddio neu heb gynrychiolaeth ddigonol a thrwy hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth; 'Cymru o gymunedau cydlynus' drwy ddod â grwpiau gwahanol o bobl ifanc at ei gilydd mewn lleoliadau gwaith ieuenctid; 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' drwy gynnig cyfleoedd i bobl ifanc feithrin sgiliau diwylliannol newydd a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol; 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' drwy ddatblygu syniadau o ddinasyddiaeth weithgar a byd-eang ymhlith pobl ifanc.
- *Deddf Plant (2004), Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Mae'r Deddfau a'r Mesurau hyn yn cyfeirio mewn ffyrdd gwahanol at yr angen i sicrhau bod gan bobl ifanc lais clir yn y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gallai gwasanaethau gwaith ieuenctid arwain y ffordd o ran yr agenda hon drwy ddangos i'r cyhoedd, y sector gwirfoddol a'r sector preifat sut y gellir rhoi lle canolog i bobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau;

- *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010*. Mae Adran 11 o'r Mesur – y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae – yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn eu hardal a sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae ar gael. Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn debygol o atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn. Gallai gwasanaethau gwaith ieuenctid chwarae rôl hollbwysig o ran helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r nod hwn;
- Ei hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg, fel y dangosir yn *Cymraeg 2050*. Mae gan wasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni dau nod a geir yn *Cymraeg 2050*, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae creu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i ysgolion yn hanfodol i gyflawni'r ddau nod hyn ac mae gan wasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg rôl hollbwysig i'w chwarae yn hyn o beth;
- Ei hymrwymiad i *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* (CCUHP). Mae CCUHP yn diogelu hawliau plant hyd at 18 oed. Yn ogystal â chydabod eu hawliau dynol sylfaenol mae hefyd yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt er mwyn eu diogelu rhag niwed fel un o'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Daethpwyd i ystyried bod yr hawliau hyn yn dod o dan dair thema, sef: hawliau amddiffyniad, darpariaeth a chyfranogiad. Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi hawliau penodol yn y Confensiwn, gan gynnwys hawl plant i gael eu hamddiffyn rhag camwahaniaethu (erthygl 2), ymrwymiad i sicrhau mai lles pennaf y plentyn yw'r brif ystyriaeth (erthygl 3), yr hawl i fywyd, goroesi a datblygu (erthygl 6), yr hawl i gael gafael ar wybodaeth (erthygl 17) a'r hawl i gael gwrandawriad (erthygl 12). Bydd creu model cynaliadwy sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn helpu i ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r gwahanol erthyglau a geir yn y Confensiwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig cyffredinol o ran gwaith ieuenctid i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed sy'n byw yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwnnw i'w groesawu ac mae'n dangos y gwerth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar wasanaethau gwaith ieuenctid ac, felly, ar bobl ifanc Cymru.

Fodd bynnag, mae'r sector yn wynebu heriau sylfaenol ar hyn o bryd. Mae cyni cyllidol wedi cael effaith andwyol ar y sector. Dengys adroddiad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod cyfanswm y gwariant wedi'i gyllidebu ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid gan awdurdodau lleol wedi lleihau tua 25% rhwng 2012 a 2016.<sup>1</sup> Dengys ffigurau mwy diweddar batrymau gwariant croes. Cynyddodd gwariant mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol rhwng 2016 a 2020 ond mae'n dal i fod islaw'r hyn sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth gwaith ieuenctid cynhwysfawr mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol. Mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill, gwelwyd lleihad pellach mewn gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid dros yr un cyfnod.<sup>2</sup> Mae'r amrywiadau hyn yn golygu bod anghysondebau mawr o ran y mathau o wasanaeth gwaith ieuenctid sydd ar gael i bobl ifanc mewn rhannau gwahanol o Gymru. Ac, ar y cyfan, mae'r tueddiadau hyn wedi creu

<sup>1</sup> Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Pa Fath o Wasanaeth Ieuenctid sydd ei eisiau ar Gymru? Adroddiad yr Ymchwiliad i Waith Ieuenctid* (Caerdydd, 2016) tud. 5.

<sup>2</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/v/J-FG>, cyrchwyd 26.7.21.



gwasanaeth gwaith ieuenctid sy'n orddibynnol ar ewyllys da gwirfoddolwyr ac ymarferwyr ac sydd, mewn rhai achosion, yn fregus.

Dengys ymchwil ddiweddar fod y pandemig wedi creu heriau ychwanegol i wasanaethau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol.<sup>3</sup> Mewn rhai awdurdodau lleol, mae staff gwaith ieuenctid wedi'u hadleoli i ymgymryd â dyletswyddau eraill. Yn y sector gwirfoddol, mae'r angen i roi staff ar ffyrlo a chynnal lefelau cyllid wedi dangos natur fregus gwasanaethau. Hefyd, bu'n rhaid datblygu sgiliau newydd, yn enwedig mewn perthynas â gwaith ieuenctid digidol, fel ffordd o gynnal cysylltiadau â phobl ifanc.

Mae'r heriau hyn yn dangos bod angen newid y ffordd rydym yn cefnogi ac yn datblygu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn sylweddol. Mae angen inni symud i ffwrdd oddi wrth amgylchedd gweithredu gwan a bregus i un sy'n gryf ac yn gydnherth er mwyn i bob person ifanc yng Nghymru allu defnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid neu gael cynnig gwasanaethau o'r fath. Mae'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn nodi ffyrdd ymarferol a chyflawnadwy o greu model cynaliadwy ar gyfer llywodraethu a darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.

At hynny, byddai'r model cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru a argymhellir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo'r pum ffordd newydd o weithio a ddisgrifir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*. Mae'n fodel a fydd yn:

- helpu i ddatblygu pobl ifanc Cymru yn yr *hirdymor*, yn ogystal â sector gwaith ieuenctid a all ffynnu yn yr *hirdymor*;
- cydnabod a hyrwyddo'r rôl y mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn ei chwarae o ran hyrwyddo llesiant mewn modd *integredig*;
- *cynnwys* gwahanol randdeiliaid gwahanol, yn arbennig pobl ifanc, mewn penderfyniadau ynghylch llywodraethu a darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid;
- seiliedig ar *gydweithio* helaeth, megis rhwng y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol a rhwng Llywodraeth Cymru a gwahanol sefydliadau gwasanaethau ieuenctid sy'n gweithredu yng Nghymru, yn ogystal â sectorau cysylltiedig eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc, megis ysgolion, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a phlisma;
- cefnogi'n effeithiol y rôl hirsefydlog y mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn ei chwarae o ran *atal* problemau ymhlith pobl ifanc.

Mae'n amlwg bod gan wasanaethau gwaith ieuenctid lawer i'w gynnig i bobl ifanc Cymru, y cymunedau y maent yn byw ynddynt a chymdeithas yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Os ydym o ddifrif ynglŷn â diogelu a datblygu gwasanaethau gwaith ieuenctid i bobl ifanc Cymru, rhaid inni weithredu nawr er mwyn sicrhau eu dyfodol drwy greu model cynaliadwy ar gyfer eu llywodraethu a'u darparu. Yn fyr, mae'n bryd 'cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru'.

---

<sup>3</sup> Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru, *Adroddiad CWWYS ar Effaith Covid-19 ar y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2020).



## 2 Argymhellion

O ran llywodraethu, rydym yn argymhell y canlynol:

1. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strwythur llywodraethu a gaiff ei arwain gan bobl ifanc ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn gwranddo ar bobl ifanc ac yn ystyried eu barn wrth iddi ddatblygu gwasanaethau iddynt.
2. Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu neu sefydlu sail ddeddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.
3. Dylai Llywodraeth Cymru benodi Gweinidog Plant a Phobl Ifanc yn y Cabinet a chanddo bortffolio penodol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid. Dylai'r Gweinidog arwain proses o bennu gweledigaeth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.
4. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad annibynnol o ddigonolrwydd, tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd cyllid a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, er mwyn asesu i ba raddau y mae canlyniadau yn cael eu cyflawni a'r effaith ar bobl ifanc.
5. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.
6. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaethau cyflawni rhanbarthol i gefnogi gwaith cyflawni'n lleol.
7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith i gefnogi arloesi mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn gwella safonau yn y sector.
8. Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cau'r bylchau mewn meini prawf cofrestru.

O ran cyflawni, rydym yn argymhell y canlynol:

9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i gomisiynu gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth i Gymru, fel rhan o gynnig digidol i bobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid.
10. Dylai Llywodraeth Cymru lansio Cynllun Hawliau Pobl Ifanc i bawb rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru.
11. Dylai Llywodraeth Cymru a'r sector gwaith ieuenctid gydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, o ran mynediad at wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mewn perthynas â'r rôl y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae o ran mynd ati i herio agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol mewn cymdeithas.
12. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai hefyd sicrhau mai un o flaenoriaethau allweddol y Corff Cenedlaethol fydd hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.
13. Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei hymrwymiad i gefnogi a datblygu'r proffesiwn gwaith ieuenctid gyda strwythur gyrfaedd sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen.

14. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaethau gwaith ieuenctid dan frand Cymru ac adnodd i gydgyssylltu a hyrwyddo cyfathrebu o fewn y sector a rhwng y sector a'i bartneriaid.

## 2.1 Llywodraethu

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu strwythur llywodraethu a gaiff ei arwain gan bobl ifanc ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn gwrando ar bobl ifanc ac yn ystyried eu barn wrth iddi ddatblygu gwasanaethau iddynt.**

Mae dau gam pwysig wedi'u cymryd i wella strwythurau cyfranogi i bobl ifanc yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, megis creu Senedd Ieuenctid Cymru. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff pobl ifanc eu cynnwys mewn strwythurau llywodraethu gwaith ieuenctid yn dal i fod yn anghyson. Er bod rhai datblygiadau cadarnhaol wedi bod yn y maes hwn yn ddiweddar, megis creu'r Pwyllgor Pobl Ifanc i weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a dangos sut mae pobl ifanc yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gwaith ieuenctid fel rhan o Lefel Arian y Nod Ansawdd, mae'r strwythurau cyfranogi hyn yn fregus ac nid ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn gyson. Ceir achosion lle nad yw pobl ifanc yn cael lleisio eu barn ynglŷn â'r ffordd y darperir eu gwasanaethau lleol. Mewn achosion eraill, mae cynnwys pobl ifanc mewn strwythurau llywodraethu yn weithred symbolaidd ac nid yw pobl ifanc, mewn gwirionedd, yn chwarae fawr ddim rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid.

Argymhellwn y dylid newid y ffordd y caiff pobl ifanc eu cynnwys mewn strwythurau llywodraethu gwaith ieuenctid yng Nghymru drwy eu gwneud yn bartneriaid gweithredol a chydadd ag oedolion wrth lywodraethu gwasanaethau gwaith ieuenctid.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai angen i lais pobl ifanc gael ei glywed yn glir a byddai angen gweithredu arno yn y Corff Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru (ac unrhyw Fwrdd Gweithredu dros dro ar gyfer Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (argymhelliad 5). Byddai gwneud hynny yn galluogi pobl ifanc i helpu i bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru a chyfrannu at y gwaith o gynllunio mentrau penodol a'u rhoi ar waith.
2. Byddai angen i'r gweithdrefnau a roddid ar waith i gynnwys pobl ifanc yn y gwaith o lywodraethu'r Corff Cenedlaethol hyrwyddo amrywiaeth a bod yn gynhwysol ac yn gefnogol. Byddai angen i bobl ifanc fod yn rhan o Fwrdd Rheoli'r corff hwn a byddai angen i'r bobl ifanc eu hunain ddiffinio sut yn union y byddent yn cyfrannu at y bwrdd hwnnw.
3. Yn ail, byddai pobl ifanc yn aelodau o'r partneriaethau rhanbarthol a gynigir yn y ddogfen hon (argymhelliad 6). Byddai gwneud hynny yn eu galluogi i helpu i bennu blaenoriaethau mewn perthynas â darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn lleol yng Nghymru.
4. Yn drydydd, byddai'r Corff Cenedlaethol yn annog yr holl wasanaethau gwaith ieuenctid eraill sy'n gweithredu yng Nghymru i gynnwys pobl ifanc yn eu strwythurau llywodraethu. Byddai hefyd yn cydnabod ac yn dathlu achosion lle y llwyddir i sicrhau bod pobl ifanc yn cyfranogi'n effeithiol, naill ai drwy sefydliadau, mewn ardal leol neu mewn rhai enghreifftiau o gyfranogiad rhanbarthol. Byddai'r enghreifftiau hyn o arferion da yn cael eu prif ffrydio ym mhob rhan o'r sector gwaith ieuenctid.
5. Yn olaf, byddai'r Corff Cenedlaethol yn darparu hyfforddiant a chymorth i bobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd, er mwyn sicrhau y gall y nod o sicrhau strwythurau

llywodraethu a gaiff ei arwain gan bobl ifanc ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru gael ei gyflawni mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon, drwy recriwtio, mentora a chyfleoedd cysgodi.

Bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Gwella ansawdd a pherthnasedd gwasanaethau gwaith ieuenctid. Dengys tystiolaeth fod cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o lywodraethu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn gwella ansawdd gwaith ieuenctid drwy ei wneud yn fwy atebol i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Ymateb i ofynion pobl ifanc. Mae pobl ifanc eu hunain yn galw drosodd a throsodd am gael eu cynnwys ar gyrff cenedlaethol ac am gael mynegi eu barn ynglŷn â'r ffordd y darperir eu gwasanaethau lleol.
- Galluogi Llywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus i lunio dull cenedlaethol o ymdrin â gwasanaethau gwaith ieuenctid sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, megis *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010*, *Deddf Plant (2004)*, *Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* ac Erthygl 12 o CCUHP. Mae pob un o'r rhain yn tynnu sylw at yr angen i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## **Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu neu sefydlu sail ddeddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.**

Mae sail ddeddfwriaethol bresennol gwasanaethau gwaith ieuenctid yn wan ac yn agored i'w dehongli. Fel y nodwyd gan adroddiad diweddar gan Estyn, nid oes diffiniad cyson o wasanaethau gwaith ieuenctid yn y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru, sy'n golygu nad oes gan wahanol sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n gweithredu yn y sector ddealltwriaeth glir na chytûn o ystyr a chwmpas gwasanaethau gwaith ieuenctid.<sup>4</sup> At hynny, nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn diffinio gwasanaethau gwaith ieuenctid fel un o swyddogaethau statudol awdurdodau lleol, a all arwain at sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn ystyried bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn rhywbeth dymunol yn hytrach na gwasanaeth hanfodol i bobl ifanc. Mewn cyd-destun cysylltiedig, mae'r sail ddeddfwriaethol wan yn golygu bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn wynebu'r risg o doriadau cyllidebol yng nghyd-destun cyni cyllidol parhaus ac mae'n gwneud niwed i'r proffesiwn yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol.<sup>5</sup>

Argymhellwn y dylai fod sail ddeddfwriaethol gref a chydlynus i wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, a fydda'n ei gwneud yn bosibl i gynnig cyffredinol ar gyfer pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed gael ei wireddu.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

---

<sup>4</sup> Estyn, *Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru: Gwerth Gwaith Ieuenctid* (Caerdydd, 2018) tud. 3.

<sup>5</sup> Am adolygiad defnyddiol o gyd-destun polisi gwaith ieuenctid yng Nghymru, gweler *Context of Youth Work in Wales, 2020* a baratowyd ar gyfer Grŵp Llywio Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth Cymru.

1. Mae angen diogelu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru a byddent yn cael eu sicrhau drwy Ddeddf gan Senedd Cymru a gyflwynid gan Lywodraeth Cymru; Deddf Gwaith Ieuenctid (Cymru). Byddai'r Ddeddf gan Senedd Cymru yn diffinio ystyr a chwmpas gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn glir.
2. Byddai'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r dull seiliedig ar hawliau o ymdrin â gwaith ieuenctid yng Nghymru yn glir, sef ei bod yn hawl i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed. Byddai hefyd yn rhoi strwythur ar waith a fyddai'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid o'r radd flaenaf yng Nghymru.
3. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn ystyried y ddeddfwriaeth gyfredol (e.e. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Mesur Plant a Theuluoedd Cymru, Deddf Addysg a Sgiliau, y Ddyletswydd Dichonolrwydd Chwarae), yn osgoi dyblygu ac yn cyflwyno eglurder deddfwriaethol i'r sector (gan gynnwys diffinio gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn ffordd glir a chyson).
4. Byddai deddfwriaeth yn hwyluso'r broses o:
  - a. sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru;
  - b. sefydlu fframwaith arloesedd ac atebolrwydd er mwyn gwella safonau;
  - c. ymrwymo i fodel cyllid cynaliadwy, gyda chymorth ariannol effeithiol i'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol;
  - d. integreiddio neu sefydlu partneriaethau rhanbarthol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau yn lleol;
  - e. sefydlu gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth a'r Cynllun Hawliau Pobl Ifanc cysylltiedig;
  - f. darparu i bobl ifanc gael eu cynnwys yn y gwaith o lywodraethu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru;
  - g. darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Byddai deddfwriaeth yn gwahaniaethu rhwng swyddogaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a byddai'n egluro'r dyletswyddau a ddisgwylir gan awdurdodau lleol a chyrff eraill a gynhelir sy'n ymwneud â gwasanaethau gwaith ieuenctid, yn ogystal â chyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â meysydd polisi sy'n effeithio ar bobl ifanc. Byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn diffinio, yn cefnogi ac yn diogelu'r rôl a chwaraeir gan y sector gwirfoddol o ran darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid, sydd yr un mor bwysig. Byddai'n diffinio ac yn hyrwyddo'r angen i'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol gydweithio'n agos i ddatblygu a darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid.
6. Byddai pobl ifanc yn helpu i lywio'r themâu y byddai'r ddeddfwriaeth yn ymdrin â nhw.
7. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o ddatblygu'r argymhellion eraill a amlinellir yn y ddogfen hon, lle y bo'n bosibl, cyn pasio'r ddeddfwriaeth, e.e. creu Bwrdd Gweithredu i barhau â gwaith da'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a'r Grwpiau Cyfranogiad Strategol. Mae'n bwysig sicrhau na chaiff y momentwm a grëwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ei golli tra bydd deddfwriaeth yn cael ei datblygu ac yn ystod unrhyw gyfnod interim cyn i'r Corff Cenedlaethol gael ei greu. Byddai datblygu'r argymhellion eraill a nodir yn y ddogfen hon cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio hefyd yn ffordd effeithiol o baratoi ar gyfer rhoi deddfwriaeth ar waith a hwyluso'r broses o wneud hynny.

Bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Meithrin dealltwriaeth gydlynus a chyson o wasanaethau gwaith ieuenctid a'u gwerth yng Nghymru, gan roi statws i'r sector, sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn sefydlog a'i ddiogelu;
- Ategu'r gwaith o greu cynnig cyffredinol o ran gwaith ieuenctid i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru, gan adeiladu ar y themâu a nodwyd yn *Ymestyn Hawliau*;
- Creu sector gwaith ieuenctid sy'n effeithiol ac yn effeithlon o ran y ffordd y mae'n gweithredu;
- Creu sector gwaith ieuenctid sydd â mwy o adnoddau i gefnogi pobl ifanc;
- Sicrhau mwy o atebolrwydd yn y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru drwy ddarparu mwy o eglurder ynglŷn â rhwymedigaethau statudol;
- Gwella ymwybyddiaeth o'r cyfraniad y mae'r sector gwaith ieuenctid yn ei wneud wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol er mwyn i bobl ifanc yng Nghymru ffynnu, yn enwedig mewn perthynas ag addysg, cynnig mwy o gyfleoedd a diogelu, a sicrhau bod y cyfraniad hwnnw'n cael ei gydnabod yn fwy.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru benodi Gweinidog Plant a Phobl Ifanc yn y Cabinet a chanddo bortffolio penodol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid. Dylai'r Gweinidog arwain proses o bennu gweledigaeth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.**

Ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth Cymru weledigaeth unedig ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn diffinio beth, yn ei barn hi, yw hawliau, gobeithion a disgwyliadau plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yng Nghymru. Ac nid oes Gweinidog yn y Cabinet o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn benodol am blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Ar y gorau, mae hyn yn golygu bod materion sy'n ymwneud â phobl ifanc yn ymddangos mewn nifer o bortffolios Gweinidogol, a all greu set heriol ddiangen o amgylchiadau ar gyfer darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid. Ar y gwaethaf, mae'n golygu nad yw lleisiau plant na phobl ifanc yn cael eu clywed na'u cynrychioli'n gyson nac ar bob lefel o fewn Llywodraeth Cymru.

Argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru bennu gweledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ieuenctid a chymorth i bobl ifanc ym mhob portffolio, wedi'u hatgyfnerthu ymhellach, yn ein barn ni, gan benodiad gweinidogol yn y Cabinet, sef Gweinidog Plant a Phobl Ifanc.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Penodi Gweinidog Plant a Phobl Ifanc o fewn y Cabinet cyn gynted â phosibl.
2. Byddai'r Gweinidog yn gyfrifol am arwain y gwaith o greu gweledigaeth o hawliau plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny yng Nghymru. Byddai'r Gweinidog yn gwneud hyn ar y cyd â phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Byddai'r weledigaeth hefyd yn rhoi sylw dyledus i wahanol fathau o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a byddai'n cysylltu ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



3. Byddai'r weledigaeth yn cael ei defnyddio gan y Gweinidog i greu cynllun gweithredu manwl er mwyn gwella llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.
4. Byddai'r weledigaeth a'r cynllun gweithredu yn ymwneud yn agos ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru (argymhelliad 2).
5. Fel rhan o'i rôl, byddai'r Gweinidog yn gyfrifol am hyrwyddo materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ym mhob rhan arall o Lywodraeth Cymru.
6. Byddai'r Gweinidog yn noddi'r Corff Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru ac yn gweithio'n agos gydag ef, ar ôl iddo gael ei sefydlu. Byddai gwneud hynny yn darparu ar gyfer mabwysiadu dull cydlynus ac unedig o gefnogi pobl ifanc yng Nghymru, yn unol â'r ffyrdd newydd o weithio a hyrwyddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
7. Byddai'r Gweinidog yn cael ei gefnogi gan dîm digonol o swyddogion er mwyn sicrhau y gall y Gweinidog gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

Bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod Cymru yn meddu ar weledigaeth gydlynus o hawliau a chyfrifoldebau plant a phobl ifanc 11-25 oed. Bydd gwneud hynny yn gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o beth mae bod yn berson ifanc sy'n tyfu i fyny yng Nghymru yn ei olygu a'u hawliau fel person ifanc yng Nghymru. Bydd hefyd yn creu mwy o ymdeimlad o ddiben cyffredin i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru;
- Helpu i greu mwy o gydlyniant deddfwriaethol yng Nghymru sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Dylai'r weledigaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig adlewyrchu unrhyw ddeddfwriaeth bresennol a newydd sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Dylai hefyd dynnu sylw at y ffordd y gallai safbwyntiau plant a phobl ifanc fwydo i mewn i ddeddfwriaeth bwysig arall, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â chydaddoldebau a Mesurau sy'n ymwneud â'r Gymraeg;
- Codi proffil plant a phobl ifanc, y gwahanol broblemau y maent yn eu hwynebu a'r cyfraniadau cadarnhaol y maent yn eu gwneud at gymunedau a chymdeithas yng Nghymru, o fewn Llywodraeth Cymru;
- Darparu i faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc gael eu prif ffrydio ym mhob adran er mwyn i bawb sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru gymryd perchenogaeth ohonynt;
- Creu adnodd gweinyddol digonol er mwyn cefnogi'r Gweinidog a hyrwyddo materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc o fewn Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad annibynnol o ddigonolrwydd, tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd cyllid a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, er mwyn asesu i ba raddau y mae canlyniadau yn cael eu cyflawni a'r effaith ar bobl ifanc.**

Mae'r Bwrdd yn gryf o'r farn bod y trefniadau ariannol presennol ar gyfer darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn anghyson a bod angen rhai newydd. Nid

yw'r *status quo* yn opsiwn. Mae angen cynnal adolygiad annibynnol o gyllid a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Byddai'r adolygiad yn nodi ac yn gwerthuso dulliau ariannu presennol ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â model ariannu cynaliadwy, teg ac atebol ar gyfer cefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru (gan ystyried natur ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, gwerth am arian mewn penderfyniadau gwario, dadansoddiad cost a budd o wariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid). Byddai'r argymhellion ynghylch ariannu yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl.

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad annibynnol o ddigonolrwydd, tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd cyllid a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn asesu i ba raddau y mae canlyniadau yn cael eu cyflawni a'r effaith ar bobl ifanc. Gallai'r adolygiad ddefnyddio arbenigedd o'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro (ac unrhyw Fwrdd Gweithredu olynol), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) a sefydliadau perthnasol eraill yn y sector a gynhelir a'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol, gan gynnwys y Pwyllgor Pobl Ifanc.

Gallai cwrmpas yr adolygiad wneud y canlynol:

1. Nodi'r cyllid sydd ei angen i gefnogi agweddau allweddol ar ddeddfwriaeth bresennol a'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 2), gan gynnwys y cyllid sydd ei angen i greu Corff Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth a Chynllun Hawliau Pobl Ifanc.
2. Ystyried a yw'r gwariant presennol ar wasanaethau gwaith ieuenctid yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol yn cynnig gwerth am arian a nodi sut mae gwahanol awdurdodau lleol yn defnyddio'r elfennau gwaith ieuenctid o'u cyllidebau cyffredinol. Dylai'r adolygiad dynnu sylw at amrywiadau mewn gwariant rhwng awdurdodau lleol a goblygiadau amrywiadau o'r fath i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn lleol. Gallai hefyd nodi arferion da o ran ariannu gwasanaethau gwaith ieuenctid lleol, gan gynnwys achosion lleol y sicrhau arian ychwanegol (arian elusennol, buddsoddiad gan y sector preifat ac ati) ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid.
3. Sicrhau y caiff unrhyw fodolau ariannu a gwariant newydd eu hintegreiddio mewn fframwaith monitro a chanlyniadau effeithiol (argymhelliad 7) a'u llywio gan ddadansoddiad o anghenion y boblogaeth 11-25 oed ym mhob ardal awdurdod lleol.

Gallai gweithredu'r argymhelliad hwn wneud y canlynol:

- Arwain at gyllid tecach i wasanaethau gwaith ieuenctid a mynediad mwy cyfartal i wasanaethau gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc, mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae gwneud hynny yn hanfodol fel ffordd o greu darpariaeth gyffredinol o wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru i bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru;
- Sicrhau llawer mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas ag arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru;
- Sicrhau sail ariannol gadarn, deg a chynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn lleol yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, gan eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at bolisiau a nodau eraill Llywodraeth Cymru, megis y

Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynlluniau gweithredu ar gydraddoldeb;

- Gwella'r gydberthynas rhwng y sector gwaith ieuenctid a gynhelir a'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol;
- Arwain at fodel ariannu cynaliadwy ar gyfer agweddau allweddol ar y ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 2).

### **Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.**

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sefydliad cenedlaethol i arwain, cydgysylltu, hyrwyddo a datblygu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, a allai gael effeithiau negyddol ar ansawdd gwasanaethau gwaith ieuenctid a ddarperir i bobl ifanc. Mae'r ffaith nad oes sefydliad cenedlaethol yn golygu nad yw gwaith sefydliadau gwahanol sy'n gweithredu yn y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei cydgysylltu'n gyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â marchnata a chyfathrebu. Mae hefyd yn golygu nad yw gweithgareddau penodol, megis ymchwil ac ymgysylltu rhyngwladol, yn digwydd, gan eu bod y tu hwnt i gwmpas sefydliadau unigol ac awdurdodau lleol. Ac mae proffil cyhoeddus gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru hefyd yn dioddef gan nad oes sefydliad cenedlaethol i hyrwyddo gwerth gwasanaethau gwaith ieuenctid i wleidyddion a'r cyhoedd fel ei gilydd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi cyflawni rhai o'r rolau hyn. Mae adborth gan y sector yn dangos bod y Bwrdd wedi cael effaith gadarnhaol, sydd wedi arwain at ddull gweithredu mwy cydlynus rhwng y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol ac ymdeimlad cyffredinol o fomentwm cadarnhaol. Fodd bynnag, mae natur dros dro'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a'r ffaith nad yw cydgysylltu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn rhan o'i gylch gwaith, yn golygu nad yw'n addas i gydgysylltu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn yr hirdymor. Mae angen creu Corff Cenedlaethol, a all ymgymryd â'r rôl bwysig hon, cyn gynted â phosibl.

Argymhellwn y dylid creu Corff Cenedlaethol i gydgysylltu, datblygu a chefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Creu Corff Cenedlaethol wedi'i ategu gan ddeddfwriaeth. Byddai'n gweithredu o dan lythyr cylch gwaith a byddai ganddo gyfres o swyddogaethau statudol a chyllideb wedi'i diffinio.
2. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn arwain y gwaith o gydgysylltu gwasanaethau gwaith ieuenctid gwirfoddol a gwasanaethau gwaith ieuenctid a gynhelir yng Nghymru. Byddai'n helpu i bennu gweledigaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Byddai angen i'r weledigaeth hon ategu'r weledigaeth ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc a ddatblygid gan y Gweinidog Plant a Phobl Ifanc newydd (argymhelliad 3);
3. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn canolbwyntio ar swyddogaethau na ellir eu cyflawni'n lleol neu y gellir eu cyflawni'n fwy effeithlon yn genedlaethol. Gallai'r rhain gynnwys:
  - a. cydgysylltu fframwaith hyfforddi ac achredu ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru a gaiff ei lywio gan sail dystiolaeth ymchwil;

- b. cefnogi arloesedd a gwelliant mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid;
  - c. gweithredu fel eiriolwr i'r sector gwaith ieuenctid a chyfrannu at ddatblygu polisi sy'n ymwneud â gwasanaethau gwaith ieuenctid;
  - d. cydgysylltu'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth a'r Cynllun Hawliau Pobl Ifanc cysylltiedig;
  - e. cynnal a chomisiynu ymchwil mewn perthynas â gwasanaethau gwaith ieuenctid;
  - f. hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru ac yn rhyngwladol;
  - g. hyrwyddo brand Cymreig o wasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 14).
4. Byddai'r adolygiad o gyllid gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru (argymhelliad 4) yn penderfynu sut y byddai'r Corff Cenedlaethol yn cael ei gyllido ac ai'r Corff Cenedlaethol fyddai cyllidwr gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.
  5. Byddai maint y Corff Cenedlaethol, o ran staff a chyllideb, yn ymwneud â'r swyddogaethau a gyflawnid ganddo. Fodd bynnag, argymhellir y dylai'r Corff Cenedlaethol gynnwys, o leiaf, Brif Weithredwr, Swyddog Polisi, Swyddog y Cyfryngau a Marchnata, Cydgysylltydd Hyfforddiant, Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Ieuenctid, ynghyd â chymorth gweinyddol ac ariannol.
  6. Byddai pobl ifanc fod yn rhan o Fwrdd Rheoli'r Corff Cenedlaethol (argymhelliad 1) a byddai angen i'r bobl ifanc eu hunain ddiffinio sut yn union y byddent yn cyfrannu at y bwrdd hwnnw.
  7. Byddai unigolion ychwanegol yn cael eu penodi i Fwrdd Rheoli'r Corff Cenedlaethol. Byddai cadeirydd annibynnol a benodid gan y Gweinidog.
  8. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn integreiddio'n effeithiol â chyrrff strategol eraill sy'n gweithredu'n genedlaethol yn y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru, er mwyn osgoi dyblygu rolau a swyddogaethau. Byddai angen diffinio'r union gydberthynas rhwng y cyrrff strategol eraill a'r Corff Cenedlaethol yn fanwl.
  9. Mae angen creu Bwrdd Gweithredu Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid dros dro i Gymru tra bydd y ddeddfwriaeth sydd ei hangen i greu'r Corff Cenedlaethol yn cael ei phasio. Byddai'r Bwrdd dros dro yn cynnal y momentwm a fyddai'n cael ei greu gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid dros dro, yn helpu i weithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, nad ydynt yn dibynnu ar ddeddfwriaeth, a chyfrannu at ddiffinio ffurf a swyddogaethau'r Corff Cenedlaethol.

Bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Ynghyd â'r ddeddfwriaeth arfaethedig, helpu i lunio dull strategol, cyffredin ac unedig o ymdrin â gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru;
- Helpu i ddatblygu darpariaeth gwaith ieuenctid fwy effeithiol ac arloesol yng Nghymru o ganlyniad i'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u cydgysylltu'n genedlaethol a hyrwyddir gan y Corff Cenedlaethol;
- Gwella ansawdd gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru drwy swyddogaethau ymchwil a thystiolaeth y Corff Cenedlaethol;
- Arwain at ymgysylltiad polisi mwy gweithredol ac effeithiol yn y sector gwaith ieuenctid. Bydd gwneud hynny yn gwella polisiâu sy'n ymwneud yn benodol â phobl ifanc a gwasanaethau gwaith ieuenctid a bydd yn helpu i brif ffrydio materion sy'n ymwneud â phobl ifanc yn fwy effeithiol mewn meysydd polisi eraill;
- Codi proffil gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

## **Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaethau cyflawni rhanbarthol i gefnogi gwaith cyflawni'n lleol.**

Mae dwy her yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn lleol ac yn rhanbarthol. Yn gyntaf, rydym yn pryderu nad yw llais pobl ifanc yn cael ei glywed ac na weithredir arno'n gyson yn lleol ac yn rhanbarthol, sy'n amharu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, roedd sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)* i fod i wella trefniadau cydweithio ym mhob gwasanaeth cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld llawer o dystiolaeth i awgrymu bod y sector gwaith ieuenctid yn cyfrannu at waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn yr un modd, mae saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cymru yn dod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector at ei gilydd er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal. Unwaith eto, anaml y mae'r sector gwaith ieuenctid yn bresennol yn nhrefodaethau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu'n cyfrannu atynt.

Yn ail, mae heriau ychwanegol yn gysylltiedig â chyflawni gwaith ieuenctid mewn 22 o ardaloedd awdurdod lleol ar wahân. Caiff gwasanaethau eu dyblygu mewn awdurdodau cyfagos, sy'n golygu bod cyfleoedd ar gyfer cydweithio cadarnhaol yn cael eu colli. Unwaith eto, mae perygl y bydd pobl ifanc ar eu colled o ganlyniad i'r dull hwn o weithredu. Ac mae cyrff gwirfoddol sy'n awyddus i weithio ar draws 22 o awdurdodau lleol, pob un â'i ddull unigryw o ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid, yn wynebu heriau ychwanegol.

Argymhellwn y dylid sefydlu dull rhanbarthol unedig o ymgymryd â chynllunio a chydweithio strategol amlasiantaeth, gyda phwyslais allweddol ar bobl ifanc.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai Llywodraeth Cymru yn annog Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fynd ati i gynnwys safbwyntiau pobl ifanc yn eu prosesau gwneud penderfyniadau. Byddai hefyd yn ystyried a oes angen diwygio'r canllawiau statudol a ddarperir ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff llais pobl ifanc ei gynrychioli'n fwy effeithiol yn y fforymau lleol a rhanbarthol pwysig hyn.
2. Byddai awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn cael cymorth i greu strwythur rhanbarthol, a fyddai'n helpu i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru eu darparu. Ceir opsiynau gwahanol ar gyfer yr ôl troed rhanbarthol ond argymhellid y dylai'r strwythur rhanbarthol fod yn seiliedig ar bedwar rhanbarth Gogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru, Canol De Cymru a De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Mae'r rhain yn cyfateb i gonsortia addysg, rhanbarthau Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol a'r strwythur rhanbarthol a ddefnyddir gan Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid.
3. Byddai'r strwythur rhanbarthol a grëid yn atgyfnerthu partneriaethau rhwng y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol yn eu rhanbarthau, gyda'r nod o wella'r ffordd y darperir gwasanaethau.
4. Byddai'r rhanbarthau yn cael cymorth i ystyried manteision cydweithio mewn perthynas â datblygu'r canlynol:

- a. model cyflawni mwy strategol a chyson mewn rhanbarthau;
  - b. darpariaeth gwaith ieuenctid arbenigol mewn rhanbarthau, e.e. o ran gofal iechyd ar gyfer pobl ifanc, gwaith ieuenctid rhyngwladol;
  - c. dulliau rhanbarthol o ddatblygu sgiliau a'r gweithlu;
  - d. dulliau rhanbarthol o wneud ceisiadau am gyllid i gefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid;
  - e. dulliau rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg (argymhelliad 12);
  - f. cyfleusterau rhanbarthol (e.e. canolfannau preswyl) er mwyn cefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn rhanbarthau.
5. Byddai'r strwythur rhanbarthol a roddid ar waith yn integreiddio swyddogaeth gydgysylltu'r Corff Cenedlaethol i oruchwylio a chefnogi trefniadau cyflawni lleol.

Bydd gweithredu'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Arwain at gydweithio mwy effeithiol rhwng y sector gwaith ieuenctid a gynhelir a'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol mewn rhanbarthau, gydag effaith gadarnhaol ar y ffordd y darperir gwasanaethau;
- Gwella'r ddarpariaeth i bobl ifanc mewn awdurdodau lleol drwy eu galluogi i ddod at ei gilydd fel rhanbarthau, ac mewn cydweithrediad â'r sector gwirfoddol, er mwyn gwneud ceisiadau am gyllid ychwanegol, i ddatblygu arbenigeddau gwaith ieuenctid a darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg effeithiol;
- Darparu ar gyfer datblygu gweithlu mwy effeithiol, drwy gefnogi modelau rhanbarthol ar gyfer datblygu hyfforddiant a sgiliau (argymhelliad 13);
- Cynrychioli safbwyntiau pobl ifanc yn well mewn trafodaethau lleol ynghylch llesiant, er enghraifft drwy helpu i sicrhau bod trafodaethau lleol ynghylch llesiant yn fwy tebygol o gynnwys safbwyntiau cenedlaethau'r dyfodol. Yn fwy cyffredinol, byddai gweithredu'r argymhelliad hwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu rôl fwy amlwg i bobl ifanc mewn strwythurau llywodraethu lleol a rhanbarthol (sy'n gysylltiedig ag argymhelliad 1).

### **Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith i gefnogi arloesi mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn gwella safonau yn y sector.**

Yn ddiau, mae gwaith ieuenctid o ansawdd uchel yn cael ei gyflawni yng Nghymru, gyda chanlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc ledled y wlad. Fodd bynnag, mae nifer o faterion y dylid mynd i'r afael â nhw er mwyn gwella safonau a chanlyniadau i bobl ifanc yng Nghymru. Yn gyntaf, mae angen diffiniad cliriach o ystyr gwasanaethau gwaith ieuenctid o ansawdd da ac mae angen i bob rhan o'r sector gymryd perchenogaeth o'r diffiniad hwnnw a'i gymhwyso'n gyson. Yn ail, mae angen i'r sector feithrin dealltwriaeth gliriach o sut y gallai fesur canlyniadau ac effaith tymor hwy ei waith gyda phobl ifanc. Yn drydydd, mae angen llunio dull mwy effeithiol o hyrwyddo proffesiynoldeb a rhannu arferion da a datblygiadau arloesol ym mhob rhan o'r sector. Yn olaf, mae angen datblygu ffyrdd effeithiol a chymesur o werthuso a gwella safonau yn y sector.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith i gefnogi arloesi mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn gwella safonau yn y sector.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Ar y cyd â'r sector gwaith ieuenctid, byddai'r Corff Cenedlaethol yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith o ddatblygu fframwaith datblygiadau arloesol a chanlyniadau er mwyn gwneud y canlynol:
  - a. Creu safonau cytûn er mwyn diffinio ystyr gwasanaethau gwaith ieuenctid o ansawdd da yng Nghymru. Gallai'r safonau hyn ddefnyddio'r Marc Safon ac arolygiadau blaenorol Estyn o wasanaethau gwaith ieuenctid;
  - b. Llunio dulliau o ddeall effaith byrdymor a hirdymor gwasanaethau gwaith ieuenctid ar bobl ifanc;
  - c. Llunio dulliau o rannu arferion da ac arloesol rhwng pob rhan o'r sector.
2. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn gweithio'n agos gydag Estyn er mwyn datblygu ffordd effeithiol, briodol a chymesur o werthuso a gwella safonau mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid. Byddai'r dull gwerthuso yn sensitif i'r cyd-destunau gwahanol lle y caiff gwasanaethau gwaith ieuenctid eu darparu yng Nghymru (y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, sefydliadau cenedlaethol a sefydliadau bach, lleol).
3. Byddai'r fframwaith datblygiadau arloesol a chanlyniadau, a'r dull gwerthuso cysylltiedig, yn cael eu hategu gan ddeddfwriaeth (argymhelliad 2). Dylai'r ddeddfwriaeth ddiffinio union gwmpas y fframwaith datblygiadau arloesol a chanlyniadau a'r dull gwerthuso cysylltiedig.
4. Byddai pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddulliau arfaethedig o werthuso ansawdd gwasanaethau gwaith ieuenctid fel Arolygwyr Ifanc, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn atebol i bobl ifanc.
5. Byddai'r rhai sy'n gweithio yn y sector gwaith ieuenctid, yn enwedig sefydliadau gwirfoddol bach, yn cael cymorth i baratoi ar gyfer y dulliau gwerthuso newydd a chymryd rhan ynddynt.
6. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn egluro'r gydberthynas rhwng dulliau gwerthuso newydd a dulliau eraill o achredu a rheoli ansawdd yn y sector, yn arbennig y Marc Safon.
7. Byddai elfennau o'r argymhelliad hwn yn cael eu gweithredu, hyd y gellid, cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio a chyn i'r Corff Cenedlaethol gael ei greu. Gallai'r Bwrdd Gweithredu, er enghraifft, weithio gydag Estyn i ddatblygu ffordd briodol, gymesur a chefnogol o werthuso gwasanaethau gwaith ieuenctid cyn i unrhyw ddeddfwriaeth gael ei phasio.

Bydd gweithredu'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod gan y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru ddiffiniad a dealltwriaeth glir o ystyr gwaith ieuenctid o ansawdd da a rhoi strwythurau cefnogol ar waith er mwyn ei helpu i'w gyflawni. O ganlyniad, dylai fod manteision mesuradwy i bobl ifanc sy'n ymgysylltu â gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru;
- Meithrin gwell dealltwriaeth o effaith byrdymor a hirdymor gwasanaethau gwaith ieuenctid ar bobl ifanc yng Nghymru a ffyrdd o'i mesur, gyda manteision clir o ran dangos 'gwerth am arian';
- Arwain at ffyrdd mwy effeithiol o rannu arferion da a datblygiadau arloesol yn y sector gwaith ieuenctid, gyda manteision o ran ansawdd y gwasanaethau gwaith ieuenctid a brofir gan bobl ifanc;
- Creu ffyrdd effeithiol o nodi arferion anfoddhaol yn y sector.

## **Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cau'r bylchau mewn meini prawf cofrestru.**

Mae bylchau yn y ddeddfwriaeth sy'n sail i broses bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg o gofrestru staff gwaith ieuenctid. I grynhoi, mae gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid am dâl mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau gwirfoddol nad ydynt wedi'u cofrestru. Hefyd, mae ymarferwyr heb eu cofrestru yn gweithio mewn lleoliadau y tu allan i'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, er enghraifft mewn cymdeithasau tai, sefydliadau ffydd a lleoliadau preifat. Mae'n amlwg bod hyn yn peri risgiau o safbwynt diogelu i bobl ifanc yn ogystal â rhieni, gofawyr, gwarcheidwaid a'r cyhoedd.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau bod yn rhaid i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai Llywodraeth Cymru yn tynhau'r ddeddfwriaeth ynglŷn â chofrestru gweithwyr ifanc cyn gynted â phosibl er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau gwaith ieuenctid gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg. Byddai Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o nodi ffyrdd o gyflymu'r broses hon.
2. Byddai Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar yr ymchwil fapio bresennol i weithlu gwasanaethau gwaith ieuenctid, gwaith parhaus Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ar gyfer y sector gwirfoddol ac ymarfer diweddar Cyngor y Gweithlu Addysg i fapio'r gweithlu. Dylid nodi bylchau yn y broses gofrestru a gwneud ymchwil bellach, yn ôl yr angen, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau.
3. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn defnyddio'r ymarfer mapio fel sail ar gyfer datblygu cynllun gweithlu ar gyfer y sector gwaith ieuenctid (argymhelliad 13). Dylai hyn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan Grŵp Cyfranogiad Strategaeth Datblygu'r Gweithlu.

Bydd gweithredu'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â mater diogelu sylfaenol sy'n codi mewn perthynas â gwasanaethau gwaith ieuenctid, gan sicrhau bod yr holl waith ieuenctid yng Nghymru yn digwydd mewn amgylcheddau diogel;
- Helpu i wella safonau yn y sector gwaith ieuenctid drwy sicrhau bod pob gweithiwr ieuenctid wedi'i gofrestru i weithio gyda phobl ifanc a'i fod yn gymwys i wneud hynny. Bydd gwneud hynny yn darparu ar gyfer datblygu llinell sylfaen o ansawdd a ddisgwylir gan bob gwasanaeth gwaith ieuenctid a phob gweithiwr ieuenctid yng Nghymru.



## 2.2 Cyflawni

### **Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i gomisiynu gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth i Gymru, fel rhan o gynnig digidol i bobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid.**

Nid oes gan Gymru le y gall pobl ifanc fynd iddo i gael gwybodaeth gynhwysfawr a dibynadwy am wasanaethau gwaith ieuenctid a materion eraill sy'n bwysig iddynt. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym ei bod yn anodd iddynt gael gwybod beth sydd ar gael iddynt yn lleol, ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Bu'r diffyg seilwaith cenedlaethol hwn ar gyfer gwybodaeth a gwaith ieuenctid digidol yn rhwystr sylweddol i ymdrechion y sector i ymateb i'r heriau a oedd yn gysylltiedig â phandemig Covid-19. Yn fwy cyffredinol, mae'r ffaith nad oes seilwaith cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth a gwaith ieuenctid digidol yn tanseilio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnig darpariaeth gwaith ieuenctid ddwyieithog i bawb.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phobl ifanc a'r sector i lunio a chyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid digidol a gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth i bobl ifanc yng Nghymru. Byddai hyn yn galluogi pob person ifanc i gael gwybodaeth am ei hawliau, argaeledd gwasanaethau gwaith ieuenctid a chymorth ac unrhyw faterion eraill y mae pobl ifanc yn ystyried eu bod yn bwysig iddynt. Byddai hefyd yn eu grymuso i ddod o hyd i wybodaeth am waith ieuenctid wyneb yn wyneb a manteisio ar y ddarpariaeth honno ac yn galluogi gweithwyr ieuenctid i ddarparu gwasanaeth drwy gyfryngau digidol os mai hwn yw'r opsiwn a ffefrir gan bobl ifanc.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn gyfrifol am y cynnig digidol yn ymwneud â gwaith ieuenctid a'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth cysylltiedig i bobl ifanc yng Nghymru. Byddai naill ai'n curadu gwybodaeth sy'n ymddangos yn y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth neu'n comisiynu sefydliad arall i wneud hynny, mewn partneriaeth â phobl ifanc.
2. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn penderfynu ar ganllawiau, safonau, egwyddorion moesegol ac egwyddorion diogelu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid digidol yng Nghymru.
3. Yn unol ag egwyddorion cynllunio gwasanaethau, byddai pobl ifanc yn arwain y broses o benderfynu ar fformat, cynnwys a chwmpas y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth, er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'w hanghenion. Byddai hyn yn cynnwys penderfynu ar ei enw.
4. Byddai'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth yn cael ei nodweddu gan gyfnewid gwybodaeth rhwng pobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a llunwyr polisi yng Nghymru. Byddai cyfran sylweddol o'r wybodaeth hon yn cael ei chynhyrchu gan bobl ifanc. Byddai'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth yn cyfuno cynhyrchu gwybodaeth yn lleol â churadu gwybodaeth ar lefel fwy cenedlaethol.
5. Byddai'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth creadigrwydd digidol fel ffordd o ymgysylltu â gwaith ieuenctid yn ei rinwedd ei hun (er enghraifft codio, dylunio graffig, cynhyrchu sain a ffilm).
6. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn sicrhau bod cynnig digidol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid a gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth cysylltiedig i bobl ifanc yn ategu, yn atgyfnerthu ac yn cynyddu darpariaeth gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb yng

Nghymru, yn hytrach nag amharu arni. Er enghraifft, gellid defnyddio'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth i holi pobl ifanc am ansawdd gwasanaethau gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb ar adeg eu darparu.

7. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn diffinio'r gydberthynas rhwng y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth a darparwyr eraill gwybodaeth ddigidol i bobl ifanc, gan gynnwys Meic.
8. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn ceisio lleihau effaith tlodi digidol ar y cynnig digidol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid, yn enwedig o ystyried y cyfraniad sylweddol y mae'r olaf yn ei wneud at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid ar gyfer pawb.
9. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn sicrhau bod y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb, hygyrchedd a chynhwysiant. Byddai'n hollol ddwyieithog (argymhelliad 12) ac yn cael ei ddefnyddio i alluogi gwasanaethau gwaith ieuenctid i gyrraedd a chynnwys cynulleidfaoedd amrywiol (argymhelliad 11).
10. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn ystyried goblygiadau'r cynnig digidol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid o ran hyfforddi gweithwyr ieuenctid, yn ogystal â myfyrwyr Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB). Byddai'n gweithio gyda sefydliadau AU ac AB i ddarparu hyfforddiant parhaus er mwyn ei gwneud yn bosibl i gynnig digidol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid gael ei greu.
11. Byddai'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth yn cyfuno'n effeithiol â'r Cynllun Hawliau Pobl Ifanc (argymhelliad 10). Byddai'r Cynllun yn galluogi pobl ifanc i gael y wybodaeth a ddelir gan y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth.

Bydd cefnogi'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Galluogi pobl ifanc ledled Cymru i gael gwybodaeth am wasanaethau gwaith ieuenctid ac unrhyw faterion eraill sy'n bwysig iddynt, er mwyn iddynt allu arfer eu hawliau yn well, gwneud y gorau o gyfleoedd sydd ar gael a chyfrannu'n fwy effeithiol at eu cymunedau a chymdeithas yng Nghymru yn gyffredinol;
- Galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod o sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid ddwyieithog i bawb yng Nghymru. Bydd y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth yn galluogi'r sector i gynnig gwasanaeth 'sylfaenol' i bob person ifanc yng Nghymru;
- Helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn atebol i bobl ifanc drwy sicrhau bod pobl ifanc yn gyfranwyr gweithredol at y cynnig digidol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid.
- Galluogi Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc drwy arolygon ar-lein. Er enghraifft, gallai'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth gael ei ddefnyddio gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i geisio barn pobl ifanc am ddealltwriaeth leol o lesiant;
- Galluogi Llywodraeth Cymru i ddangos ei hymrwymiad i CCUHP, lle mae wedi'i nodi y dylai fod gan bobl ifanc yr hawl i weld gwybodaeth (erthygl 17).

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru lansio Cynllun Hawliau Pobl Ifanc.**

Dengys ystadegau a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod pobl ifanc yn dal i ddiodeff o dlodi ac amddifadedd.<sup>6</sup> Mae canlyniadau difrifol yn codi mewn perthynas â gallu grwpiau penodol o bobl ifanc i ddefnyddio'r gwasanaethau, cael y nwyddau a manteisio ar y cyfleoedd y mae'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn byw mewn tldi yn eu cymryd yn ganiataol. Er enghraifft, ni all rhai grwpiau o bobl ifanc fanteisio'n effeithiol ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant, na chyfleoedd cyflogaeth, na chyfranogi'n effeithiol nac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Mewn awdurdodaethau eraill, mae dulliau ymarferol wedi'u llunio er mwyn helpu pobl ifanc i ddefnyddio gwasanaethau, cael nwyddau a manteisio ar gyfleoedd. Er enghraifft, mae'r Young Scot Card yn galluogi pobl ifanc rhwng 11 a 26 oed yn yr Alban i gael disgownt ar bris gwahanol wasanaethau (megis teithio a gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon eraill), a chasglu gwobrau am gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol yn y gymuned ac ar-lein. Mae'r cerdyn hefyd yn gweithredu fel prawf oedran achrededig i bobl ifanc yn yr Alban.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cynllun Hawliau Pobl Ifanc, a fyddai am ddim i bob person ifanc 11-25 oed sy'n byw yng Nghymru. Byddai'r Cynllun yn helpu pob person ifanc yng Nghymru i ddefnyddio gwasanaethau, cael gwybodaeth a manteisio ar gyfleoedd, gan ei alluogi i fod yn aelod gweithredol o'i gymuned a chymdeithas yng Nghymru.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai'r Cynllun yn gweithredu fel prawf oedran achrededig ac yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc yn eu hardal awdurdod lleol, ledled Cymru ac yn rhyngwladol (ar y cyd â'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth).
2. Byddai manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r Cynllun yn cael eu cynllunio ar y cyd â phobl ifanc ond gallent gynnwys y Cynllun yn cael ei ddefnyddio at y dibenion canlynol:
  - a. consesiynau teithio wedi'u disgowntio ac am ddim;
  - b. prydau ysgol;
  - c. gostyngiadau gyda manwerthwyr a darparwyr hamdden partner;
  - d. y cyfle i gymryd rhan mewn rhaglen wobrwyo;
  - e. casglu pwyntiau dysgu;
  - f. rhoi mynediad i gyrsiau, llyfrgelloedd, gweminarau ac adnoddau dysgu ar-lein.
3. Byddai pobl ifanc yn llywio unrhyw benderfyniad ynghylch y fformat penodol a fyddai'n cael ei fabwysiadu ar gyfer y Cynllun, er enghraifft, a ddylai fod yn gerdyn ffisegol, yn ap neu'n gyfuniad o'r ddau. Dylid sicrhau bod y Cynllun – a'r gwasanaethau a gefnogir ganddo – mor gynhwysol a hawdd i'w ddefnyddio â phosibl. Byddai pobl ifanc hefyd yn helpu i benderfynu ar yr enw a ddefnyddid ar gyfer y Cynllun.
4. Byddai panel pobl ifanc, a fyddai'n gysylltiedig â'r Corff Cenedlaethol, yn cynnal gwiriad synnwyr o'r Cynllun yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol, ac yn ddefnyddiol, i bobl ifanc.
5. Y Gweinidog Plant a Phobl Ifanc newydd (argymhelliad 3) a'r Corff Cenedlaethol (argymhelliad 5) a fyddai'n gyfrifol am y Cynllun ar y cyd. Byddai sefydlu'r Cynllun yn

---

<sup>6</sup> D Hirsch a J Stone, *Local Indicators of Child Poverty after Housing Costs, 2019/20* (Centre for Research in Social Policy, Loughborough, 2021).

arwain at sgysiau parhaus rhwng y Gweinidog ac adrannau eraill o'r Llywodraeth, wrth i fynediad at hawliau a phrofiadau ychwanegol yn cael eu negodi ar ran pobl ifanc.

6. Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried a allai'r Cynllun integreiddio â chardiau ac apiau eraill a ddefnyddir gan bobl ifanc yng Nghymru, e.e. cardiau teithio, cerdyn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, system adnabod olion bysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac ati.
7. Byddai cysylltiad agos rhwng y Cynllun a'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth (argymhelliad 9) er mwyn i'r Cynllun allu helpu pobl ifanc i ddeall bod y gwasanaethau gwaith ieuenctid ar gael iddynt yng Nghymru.

Bydd cefnogi'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Helpu Llywodraeth Cymru i greu sefyllfa decach er mwyn helpu pobl ifanc yng Nghymru i fanteisio ar wasanaethau, profiadau a chyfleoedd. Bydd gwneud hynny yn ei galluogi i gyflawni ei hymrwymiad i leihau'r effaith y mae tlodi plant yn ei chael ar brofiadau bywyd pobl ifanc yng Nghymru. Bydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag agweddau ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol sy'n ymwneud â phobl ifanc.
- Galluogi Llywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc yng Nghymru i gael gwybodaeth am wasanaethau gwaith ieuenctid yn fwy effeithlon. Bydd gwneud hynny yn ei galluogi i gyflawni ei hymrwymiad i sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid i bawb.
- Galluogi Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant pobl ifanc mewn perthynas â sawl nod llesiant, megis 'Cymru â diwylliant bywiog', 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynus'.

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru a'r sector gwaith ieuenctid gydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, o ran mynediad at wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mewn perthynas â'r rôl y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae o ran mynd ati i herio agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol mewn cymdeithas.**

Mae'r sector gwaith ieuenctid yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn agored ac yn gynhwysol i bob person ifanc yng Nghymru. Mae *Gwaith Ieuenctid: Egwyddorion a Dibenion* yn nodi bod 'egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant yn hollbwysig i waith ieuenctid'.<sup>7</sup> Fodd bynnag, mae angen i bob gwasanaeth gwaith ieuenctid ystyried y ffordd y mae ei waith naill ai'n cynorthwyo neu'n rhwystro'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn gyntaf, mae angen ystyried a yw gwasanaethau gwaith ieuenctid mor hygyrch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ag y maent yn honni. Mae rhwystrau, sy'n aml yn rhai cudd, yn ei gwneud yn anodd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid. Mae Grŵp Cyfranogiad Strategol Hygyrchedd a Chynhwysiant yn gwneud gwaith pwysig i ddeall y rhwystrau hyn ac mae angen adeiladu ar y gwaith hwn. Yn ail, mae angen diffinio a datblygu'r rôl y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae o ran helpu pobl ifanc i wneud synnwyr o'u hunaniaethau eu hunain, hunaniaethau pobl eraill a'r ffordd y gall yr hunaniaethau gwahanol hynny arwain at anghydraddoldebau, allgáu a gormes. Yn yr ail

---

<sup>7</sup>*Gwaith Ieuenctid: Egwyddorion a Dibenion*, tud. 4.

gyd-destun hwn, mae rôl bwysig y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae drwy fynd ati i herio agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol mewn cymdeithas.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru a'r sector gwaith ieuenctid gydwethio i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, o ran mynediad at wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mewn perthynas â'r rôl y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae o ran mynd ati i herio agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol mewn cymdeithas.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg o bobl ifanc yng Nghymru er mwyn nodi unrhyw rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid. Byddai angen sicrhau y gall pobl ifanc – yn enwedig y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol – gyfrannu'n rhwydd ac yn effeithiol ar yr arolwg. Dylid cynnal yr arolwg gan gydwethio'n agos â'r sector gwasanaethau gwaith ieuenctid.
2. Byddai canfyddiadau'r arolwg yn cael eu defnyddio gan y Corff Cenedlaethol i lunio cynllun gweithredu blynyddol ar gydraddoldebau, a fyddai'n mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid ac yn hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Byddai angen i'r cynllun gweithredu ar gydraddoldebau gyfuno'n effeithiol â chynlluniau gweithredu perthnasol eraill megis y Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Action on Disability a'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ sydd ar fin cael ei gyhoeddi.
  - a. Dylai'r cynllun gweithredu ar gydraddoldebau ganolbwyntio ar ddulliau ymarferol o hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid hygyrch a chynhwysol, lle mae pobl ifanc yn teimlo'n gartrefol, yn ddiogel ac yn gyfforddus a lle y gallant ddathlu pob agwedd ar eu hunaniaeth. Gallai ffactorau perthnasol gynnwys gwella amrywiaeth o ran arweinwyr gwasanaethau gwaith ieuenctid a phroffil y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid, yn ogystal â datblygu gwasanaethau pwrpasol ychwanegol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai'r Corff Cenedlaethol helpu sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid i ddeall eu cyfrifoldebau a datblygu eu cynlluniau gweithredu ar gydraddoldebau eu hunain.
  - b. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn defnyddio'r cynllun gweithredu ar gydraddoldebau i nodi dulliau ymarferol o hyrwyddo gwaith ieuenctid fel gyrfa neu rôl wirfoddol i unigolion o bob cefndir. Gallai'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor y Gweithlu Addysg mewn perthynas ag Addysgwyr Cymru roi rhywfaint o arweiniad yn hyn o beth.
  - c. Byddai'r broses o roi'r cynllun gweithredu ar gydraddoldebau ar waith yn cael ei ddwyn i gyfrif gan gorff annibynnol (e.e. y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) a dylid diweddarau'r cynllun yng ngoleuni llwyddiant neu fethiant cynlluniau gweithredu ar gydraddoldeb blaenorol.
3. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid yn eu rôl i fynd ati i herio agweddau ac ymddygiadau gwahaniaethol mewn cymunedau a chymdeithas. Byddai hefyd yn helpu gwasanaethau gwaith ieuenctid i alluogi pobl ifanc i gymryd camau a dod yn eiriolwyr dros newid eu hunain.

4. Dylid rhoi arian i sefydliadau AU, sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant eraill er mwyn iddynt ddarparu hyfforddiant a chymorth i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gwasanaethau gwaith ieuenctid (am dâl neu'n ddi-dâl) i'w galluogi i hwyluso trafodaethau â phobl ifanc am hunaniaeth, amrywiaeth, cydraddoldebau a chynhwysiant, gan eu galluogi i ddod yn gyfryngau gweithredol newid cadarnhaol.
5. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn hyrwyddo ac yn cyhoeddi'n ehangach y rôl werthfawr a chwaraeir gan wasanaethau gwaith ieuenctid o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o bob math yng Nghymru.
6. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn sicrhau bod y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth a'r cynnig digidol sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau cudd i ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid. Byddai hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant bob amser a bod yn llais gweithredol ar gyfer ymateb i faterion cydraddoldeb.

Bydd cefnogi'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Dangos ac atgyfnerthu'r ymrwymiad a wnaed gan y sector gwaith ieuenctid yn *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* i fod yn gynhwysol ac yn agored i bob person ifanc yng Nghymru;
- Dangos ac atgyfnerthu'r rôl sydd i'w chwarae gan y sector gwaith ieuenctid o ran cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o bob math yng Nghymru (e.e. mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ sydd ar fin cael ei gyhoeddi, Action on Disability a'r gwaith o hyrwyddo 'Cymru o gymunedau cydlynus' fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol);
- Sicrhau bod gwasanaethau gwaith ieuenctid mor hygyrch a chynhwysol â phosibl i bob person ifanc yng Nghymru a'u bod yn cefnogi agweddau penodol ar CCUHP, gan gynnwys hawl pobl ifanc i gael hunaniaeth (erthygl 8) a chael eu trin yn gyfartal a chael eu hamddiffyn rhag camwahaniaethu (erthygl 2);
- Dangos ac atgyfnerthu'r rôl effeithiol y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ei chwarae o ran hyrwyddo agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol a chynhwysol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai hefyd sicrhau mai un o flaenoriaethau allweddol y Corff Cenedlaethol fydd hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Y tu hwnt i weithgareddau rhai sefydliadau gwirfoddol, a gweithgareddau mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, mae cyfleoedd cyfartal i bobl ifanc ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig ar hyn o bryd mewn rhannau helaeth o Gymru. Mae cydnabod dewis iaith unigolion a darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid Cymraeg yn angenrheidiol ar gyfer dull cynhwysol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc o ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae gan bobl ifanc yr hawl i allu defnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod hawl pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg a chynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai sicrhau mai un o flaenoriaethau allweddol y Corff Cenedlaethol, ac unrhyw ddarparwyr gwasanaethau gwaith ieuenctid eraill, fydd cynnig a hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig a fyddai'n ategu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn nodi bod angen cynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth, byddai'r Corff Cenedlaethol yn gyfrifol am lunio cynllun strategol yn nodi sut y byddai'n cynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Byddai'r Corff Cenedlaethol, ar y cyd â'r sector gwaith ieuenctid, yn nodi'r angen am wasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg ac yn ymateb i'r angen hwnnw. Gellid defnyddio dangosyddion angen procsi, gan gynnwys canran y siaradwyr Cymraeg ifanc neu ganran y bobl ifanc sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, mewn ardal awdurdod lleol. At hynny, dylai'r Corff Cenedlaethol fynd ati i geisio hyrwyddo galw am wasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg ymhlith pobl ifanc.
4. Byddai'r Corff Cenedlaethol, ar y cyd â'r sector gwaith ieuenctid, yn adeiladu ar y gwaith mapio sy'n cael ei wneud i nodi llinell sylfaen ar gyfer gwaith ieuenctid a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â sgiliau Cymraeg yn y sector gwaith ieuenctid, er mwyn i gryfderau a gwendidau allu cael eu nodi. Byddai cynllun yn cael ei ddatblygu er mwyn ymateb i ganfyddiadau'r gwaith mapio. Fel rhan o'i waith cynllunio strategol yn y maes hwn, byddai angen i'r Corff Cenedlaethol, ar y cyd â'r sector gwaith ieuenctid, ddyrannu digon o arian i gefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael yr un cyfle i ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid yn Gymraeg waeth ble mae'n byw.
5. Dylai'r Corff Cenedlaethol, ar y cyd â'r sector gwaith ieuenctid, sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnwys yn ei gynlluniau datblygu gweithlu ar gyfer y gweithlu presennol ac mewn perthynas ag ymarferion recriwtio yn y dyfodol (argymhelliad 13). Byddai hefyd yn cydgysylltu â darparwyr hyfforddiant ac addysg er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â sgiliau Cymraeg, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â darparu gwaith ieuenctid dwyieithog, mewn cwricwla perthnasol.
6. Gallai'r Corff Cenedlaethol, ar y cyd â'r sector gwaith ieuenctid, ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio ffyrdd rhanbarthol o weithio (argymhelliad 6) fel ffordd o gynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac fel ffordd o fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg gallu ieithyddol posibl yn y gweithlu.
7. Byddai angen i unrhyw gyrff sy'n cael cyllid a gwmpesir gan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* ddilyn unrhyw ganllawiau a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r Mesur, yn enwedig ei Safonau Hyrwyddo, er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu eu gwasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg, p'un a ydynt yn cael eu darparu neu eu comisiynu ganddynt.
8. Gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio canfyddiadau'r prosiect peilot y mae wedi'i gefnogi yn y maes hwn er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu ei wasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Gellid defnyddio'r canllawiau a

fyddai'n cael eu llunio drwy'r prosiect peilot yn ystod unrhyw gyfnod interim, yn enwedig mewn perthynas â materion cynllunio a chyllido.

9. Byddai angen i Lywodraeth Cymru a'r Corff Cenedlaethol ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth a'r Cynllun Hawliau Pobl Ifanc cysylltiedig yn hollol ddwyieithog (argymhellion 9 a 10).
10. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o gyflwyno ei chymorth i wasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn gynt er mwyn sicrhau na chaiff ei ohirio gan amserlenni deddfwriaethol a'r broses o greu'r Corff Cenedlaethol.

Bydd cefnogi'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Galluogi pobl ifanc i arfer eu hawl i ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid yn Gymraeg, sy'n adlewyrchu statws Cymru fel gwlad ddwyieithog a'i hymrwymiad i CCUHP. Mae erthygl 30 yn nodi bod 'gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd ei deulu, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad lle mae'n byw ai peidio.';
- Creu gwasanaethau gwaith ieuenctid sy'n fwy cynhwysol yn ieithyddol yng Nghymru; rhywbeth sy'n adlewyrchu ethos cyffredinol gwaith ieuenctid, fel y'i hadlewyrchir yn *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*;
- Galluogi gwasanaethau gwaith ieuenctid i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nodau strategol mewn perthynas â gallu pobl yn y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni. Mae *Cymraeg 2050 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)* yn nodi targedau uchelgeisiol mewn perthynas â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae gan wasanaethau gwaith ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae o ran cyflawni'r nodau hynny;
- Galluogi cyrff i gyflawni eu hymrwymadau o ran *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Mae'r Mesur yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o'r safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys y rhwymedigaeth i hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy cyffredinol. Mae hyrwyddo gwasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn galluogi cyrff i helpu i gyflawni eu hymrwymadau mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg.

**Argymhelliad 13: Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei hymrwymiad i gefnogi a datblygu'r proffesiwn gwaith ieuenctid gyda strwythur gyrfaedd sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen.**

Mae angen mynd i'r afael â sawl mater er mwyn gwneud y gweithlu gwaith ieuenctid yn fwy cynaliadwy. Yn gyntaf, ac yn gyffredinol, nid oes dealltwriaeth glir o faint y gweithlu gwaith ieuenctid a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio mewn rhannau gwahanol o Gymru. Yn ail, nid oes cynllun datblygu'r gweithlu ar gyfer y sector gwaith ieuenctid cyfan. Mae'r diffyg cynllunio strategol mewn perthynas â datblygu'r gweithlu yn cael effaith negyddol ar gyfraddau cadw cyflogaion yn y gweithlu. Mae adborth a gasglwyd gan y sector yn awgrymu, er bod llwybr clir i gymhwyso fel gweithiwr ieuenctid, mai prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu gyrfa y tu hwnt i hynny, a bod llawer o weithwyr ieuenctid cymwysedig yn ceisio cyflogaeth amgen mewn sectorau gwasanaethau eraill. Yn drydydd, mae'r cyllid i dalu am hyfforddiant gwaith ieuenctid mewn awdurdodau lleol, yn y sector gwirfoddol ac ar gyfer gwirfoddolwyr yn



annigonol. Hefyd, prin yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Mae angen i'r sector cyfan symud i ffwrdd oddi wrth ddull o ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu sy'n dameidiog ac yn oportiwnistaidd tuag at un sy'n systemig, yn flaengar ac yn gynaliadwy.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gefnogi a datblygu'r proffesiwn gwaith ieuencid drwy ddiffinio a chefnogi strwythur gyrfaol sy'n rhoi cydlyniant i'r sector ac yn cynnig cyfleoedd i weithwyr unigol gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal neu'n comisiynu ymarfer cynhwysfawr i fapio maint a chyrhaeddiad y sector gwaith ieuencid. Byddai'r ymarfer mapio yn seiliedig ar ddiffiniad cynhwysfawr o waith ieuencid, a ddatblygid ar y cyd â'r sector, ac fel y'i hadlewyrchid yn y ddeddfwriaeth arfaethedig (argymhelliad 2). Byddai'n cynnwys archwiliad o'r sgiliau a geir yn y sector gwaith ieuencid. Byddai hefyd yn cael ei lywio gan y gwaith y mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn ei ddatblygu mewn perthynas â'r gweithlu gwaith ieuencid cofrestredig, y gwaith y mae Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol ar ei ddechrau ar weithlu'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Grŵp Cyfranogiad Stratol Datblygu'r Gweithlu.
2. Ar sail yr ymarfer mapio, byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu, ar y cyd â'r sector, gynllun datblygu'r gweithlu gwaith ieuencid. Byddai cynllun datblygu'r gweithlu yn gwneud y canlynol:
  - a. nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithlu (e.e. recriwtio, sefydlu, dyrchafiad a datblygu gyrfa) yn ogystal â ffyrdd ymarferol o fynd i'r afael â nhw;
  - b. nodi unrhyw wahaniaethau yn y profiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i weithwyr ieuencid sy'n gweithio yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol a cheisio eu lleihau;
  - c. adlewyrchu'r gofynion o ran sgiliau sy'n newid yn y sector, yn enwedig o ystyried y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth arfaethedig, y cynnig digidol sy'n ymwneud â gwaith ieuencid a'r ymrwymiad i gynyddu nifer y gwasanaethau gwaith ieuencid sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg;
  - d. canolbwyntio ar godi safonau yn y sector. Byddai'n integreiddio'n effeithiol â dulliau presennol o sicrhau ansawdd yn y sector, gan gynnwys y Marc Safon, a'r fframwaith datblygiadau arloesol a chanlyniadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuencid yng Nghymru (argymhelliad 7).
3. Byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu cymwysterau a chyfleoedd ar gyfer DPP yn y sector gwaith ieuencid ymhellach a'u cyhoeddi a'u hyrwyddo'n eang. Byddai cymwysterau a chyfleoedd ar gyfer DPP yn adlewyrchu'r anghenion a nodwyd yng nghynllun datblygu'r gweithlu.
4. Byddai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r sector, yn ystyried faint o gyllid sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant gwaith ieuencid a datblygiad proffesiynol, ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr gwerthfawr.
5. Byddai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r sector, yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant ac addysg er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn briodol ac yn hygyrch i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gwaith ieuencid. Byddai'n gweithio gyda'r sector a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er

mwyn sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac addysg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Byddai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r sector, yn ystyried y potensial i'r strwythur rhanbarthol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 6) chwarae rôl bwysig o ran cefnogi hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa, er enghraifft drwy alluogi gweithwyr ieuenctid i ddod yn 'arbenigwyr' rhanbarthol mewn agweddau arbenigol ar wasanaethau gwaith ieuenctid. Ar yr un pryd, ni fyddai'r dull gweithredu rhanbarthol hwn yn llesteirio ymdrechion i ddiwallu anghenion hyfforddiant mwy lleol.
7. Byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grwpiau a phartneriaid allweddol, yn arbennig Addysgwyr Cymru, er mwyn hyrwyddo gwaith ieuenctid fel gyrfa. Mae cysylltiadau pwysig yma ag argymhelliad 14, sy'n canolbwyntio ar yr angen i sefydlu brand gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Bydd cefnogi'r argymhelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Creu gweithlu mwy effeithiol sy'n gweithredu yn y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru, o ganlyniad i'r pwyslais cynyddol ar ddarparu hyfforddiant, addysg a chyfleoedd ar gyfer DPP. O ganlyniad, bydd canlyniadau cadarnhaol o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc Cymru;
- Creu sector sydd â dealltwriaeth glir o'i anghenion strategol o ran y gweithlu, yn genedlaethol ac yn lleol ac yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol. O ganlyniad, bydd y sector gwaith ieuenctid yn fwy cydnerth a chynaliadwy;
- Creu gweithlu a all addasu'n gyflymach i ofynion newidiol pobl ifanc ac amgylcheddau allanol sy'n newid. Mae'r pandemig wedi dangos bod angen i wasanaethau gwaith ieuenctid ymateb yn greadigol i amgylcheddau sy'n newid. Datblygu dull mwy strategol o ymdrin â hyfforddiant a DPP a fydd yn galluogi'r sector gwaith ieuenctid i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw heriau yn y dyfodol;
- Creu gweithlu sy'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi'n fwy yn y gwaith y mae'n ei wneud gyda phobl ifanc. Bydd yr argymhellion a nodwyd uchod yn helpu i greu gweithlu gwaith ieuenctid sy'n fwy proffesiynol ei agwedd ac sy'n cael ei werthfawrogi'n fwy, gan randdeiliaid allanol a gweithwyr ieuenctid eu hunain. Unwaith eto, mae'n debygol y bydd manteision yma i bobl ifanc sy'n profi gwasanaethau gwaith ieuenctid, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fwy.

#### **Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gwasanaethau gwaith ieuenctid dan frand Cymru ac adnodd i gydgyssylltu a hyrwyddo cyfathrebu o fewn y sector a rhwng y sector a'i bartneriaid.**

Ar hyn o bryd, mae perygl nad yw gwerth gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei werthfawrogi ddigon gan amrywiaeth o randdeiliaid, a allai arwain at ganlyniadau negyddol o ran y lefel gyffredinol o gymorth a ddarperir i'r sector. Rhan o'r broblem yw nad oes gan wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru frand effeithiol, sy'n tynnu sylw at yr hyn y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud a'i effaith gadarnhaol ar bobl ifanc, a chymunedau a chymdeithas yn fwy cyffredinol. Hefyd, mae diffyg cyfathrebu effeithiol yn fwy cyffredinol yn y sector sydd, unwaith eto, yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth o'r cyfraniadau cadarnhaol a wneir gan wasanaethau gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid mewn rhannau gwahanol

o Gymru. Mae hefyd yn golygu nad yw pobl ifanc bob amser yn ymwybodol o wasanaethau gwaith ieuenctid a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig. At hynny, mae cyfathrebu gwael yn y sector yn rhwystr i rannu arferion da yn effeithiol ac yn golygu bod cyfleoedd i gydweithio yn cael eu colli.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru helpu i greu brand gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru ac y dylai'r brand gefnogi cyfathrebu mwy effeithiol o fewn y sector gwaith ieuenctid ac â phartneriaid a rhanddeiliaid eraill.

Gallai camau gweithredu penodol i weithredu'r argymhelliad gynnwys y canlynol:

1. Byddai Llywodraeth Cymru yn helpu'r Corff Cenedlaethol i ddatblygu brand ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Byddai'r brand yn tynnu sylw at natur unigryw gwasanaethau gwaith ieuenctid a'r cyfraniad cadarnhaol y maent yn ei wneud at fywydau pobl ifanc, yn ogystal â chymunedau a chymdeithas yn fwy cyffredinol yng Nghymru.
2. Byddai'r brand yn tynnu sylw at y cyfraniad sylweddol y mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn ei wneud at alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni amrywiaeth o amcanion polisi eraill, gan gynnwys *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*, y *Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Cymraeg 2050*, *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010*, *Deddf Plant (2004)*, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)*.
3. Byddai'r brand yn rhan o swyddogaeth marchnata a chysylltiadau cyhoeddus ehangach a fyddai'n gysylltiedig â'r Corff Cenedlaethol. Byddai'n adeiladu ar y profiad o'r rôl farchnata sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd o fewn Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ac yn integreiddio hefyd â Chynllun Marchnata Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.
4. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn adeiladu ar y gwaith a wnaed fel rhan o gynllun peilot Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol i ddatblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn gwella prosesau cyfathrebu â phobl ifanc, rheini, gofalwyr a gwarcheidwaid, yn y sector a rhwng y sector a phartneriaid eraill. Byddai'r strategaeth gyfathrebu yn tynnu sylw at y canlynol:
  - a. cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc;
  - b. cyfleoedd sydd ar gael i weithwyr ieuenctid, e.e. mewn perthynas â hyfforddiant a mentrau ar y cyd;
  - c. enghreifftiau o arferion da ac arloesol yn y sector;
  - d. gwerth ehangach y sector i gymunedau ledled Cymru a chymdeithas yng Nghymru.
5. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn integreiddio'r strategaethau marchnata a chyfathrebu â'r gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth a'r Cynllun Hawliau Pobl Ifanc (argymhellion 9 a 10).
6. Byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Corff Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y brand ac unrhyw swyddogaethau marchnata a chyfathrebu yn cael eu cyllido'n effeithiol.
7. Byddai'r Corff Cenedlaethol yn ystyried ffyrdd ehangach o godi proffil gwasanaethau gwaith ieuenctid ymhlith cynulleidfaoedd Cymreig a rhyngwladol, er enghraifft drwy hyrwyddo dathliad *Blwyddyn Pobl Ifanc* yn ystod tymor y Senedd hon.

Bydd cefnogi'r argymelliad hwn yn gwneud y canlynol:

- Codi proffil gwasanaethau gwaith ieuenctid ymhlith pobl ifanc, gan sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaethau hynny;
- Creu sector gwaith ieuenctid sy'n cael ei werthfawrogi'n fwy gan bartneriaid a rhanddeiliaid yng Nghymru, drwy dynnu sylw at y manteision sy'n deillio o wasanaethau gwaith ieuenctid. Bydd pwysleisio'r cyfraniad y mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn ei wneud at nifer o bolisiau Llywodraeth Cymru yn arbennig o bwysig;
- Codi proffil y sector gwaith ieuenctid yn fwy cyffredinol, a allai ddenu cyllid ychwanegol. Bydd cyllid ychwanegol yn dod â manteision i wasanaethau gwaith ieuenctid a phobl ifanc sy'n eu defnyddio;
- Codi proffil gwaith ieuenctid yng Nghymru o fewn y DU ac yn rhyngwladol. Bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn galluogi'r Corff Cenedlaethol i hysbysu cynulleidfa ehangach am y gwaith gwerthfawr ac arloesol sy'n cael ei wneud drwy wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae manteision ehangach yma o ran codi proffil Cymru yn fwy cyffredinol ar lefel ryngwladol, fel sydd wedi digwydd mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Gwella cyfleoedd i weithwyr ieuenctid a phobl ifanc fel ei gilydd drwy wella prosesau cyfathrebu ym mhob rhan o'r sector. Gallai cyfathrebu gwell yn y sector arwain at brofiadau newydd i bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid, yn ogystal â chyfleoedd newydd i gydweithio.

## 2 Amserlen a chost

### 2.1 Amserlen

Rydym yn annog y Gweinidog i weithredu ar yr argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn cyn gynted â phosibl. Mae gwneud hynny yn hanfodol er mwyn inni greu model ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid sy'n gynaliadwy ac a all ymateb yn greadigol i'r nifer mawr o heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu heddiw, yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â chyni cyllidol parhaus ac adfer ar ôl y pandemig.

Mae'n rhaid i rai argymhellion gael eu gweithredu fel mater o frys. Mae'n amlwg bod atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cau'r bylchau mewn meini prawf cofrestru (argymhelliad 8) yn rhywbeth y dylid ei wneud ar unwaith, o ystyried y materion diogelu difrifol. Yn yr un modd, byddai angen cynnal yr adolygiad annibynnol o'r modelau ariannu presennol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru fel mater o frys, o ystyried y dylanwad y mae materion ariannol o'r fath yn ei gael ar waith cynllunio i sicrhau bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn cael eu llywodraethu a'u darparu mewn modd cynaliadwy (argymhelliad 4).

Bydd argymhellion eraill yn cymryd mwy o amser, yn enwedig sefydlu sail deddfwriaethol i wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru (argymhelliad 2) a chreu'r Corff Cenedlaethol (argymhelliad 5). Yn yr achosion hyn, rydym yn gofyn i'r Gweinidog ddechrau gweithredu ar yr argymhellion hyn cyn gynted â phosibl, er mwyn iddynt allu cael eu gweithredu'n llawn mor amserol â phosibl hefyd.

Byddai'r Bwrdd hefyd yn tynnu sylw at ddau bwynt arall, y mae'r ddau ohonynt yn ymwneud â'r angen i gynnal momentwm o ran creu model cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru:

- Yn gyntaf, hyd yn oed mewn achosion lle y gallai gymryd peth amser i weithredu argymhelliad yn llawn, rydym yn annog y Gweinidog i gymryd camau penodol yn yr argymhellion hynny – y rhai y gellir eu cymryd yn gyflym – cyn gynted â phosibl. Bydd gwneud hynny yn helpu i ddangos i bobl ifanc a'r sector yn fwy cyffredinol fod cynnydd yn cael ei wneud.
- Yn ail, er bod y Corff Cenedlaethol yn rhywbeth y byddai angen ei ategu â deddfwriaeth ac y byddai, felly, yn cymryd peth amser i'w sefydlu, mae angen creu Bwrdd Gweithredu dros dro er mwyn parhau â gwaith da'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro (a ddaw i ben ym mis Rhagfyr 2021) a'r Grwpiau Cyfranogiad Strategol. Mae'n bwysig sicrhau na chaiff y momentwm a grëwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ei golli tra bydd deddfwriaeth yn cael ei datblygu ac yn ystod unrhyw gyfnod interim cyn i'r Corff Cenedlaethol gael ei greu. At hynny, mae angen i Fwrdd Gweithredu weithredu fel llais y sector gwaith ieuenctid yn y byrdymor wrth i bob argymhelliad gael ei weithredu.

### 2.2 Cost

Mae'n anochel y bydd nifer o gostau yn codi mewn perthynas â gweithredu ar yr argymhellion hyn. Gellir rhannau'r costau hyn yn wahanol categorïau;

- Costau untro sy'n gysylltiedig â chomisiynu arolygon neu archwiliadau er mwyn ategu argymhellion, er enghraifft mewn perthynas â'r canlynol: y cyllid a ddarperir ar

gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid ar hyn o bryd (argymhelliad 4); rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 11); nifer y gwasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg a'r galw amdanynt (argymhelliad 12); maint a sylfaen sgiliau'r gweithlu gwasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 13); sefydlu brand ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru (argymhelliad 14).

- Costau cylchol sy'n gysylltiedig â mathau newydd o lywodraethiant a mathau newydd o ddarpariaeth, er enghraifft: creu'r Corff Cenedlaethol (argymhelliad 5); y gwasanaeth cyfnewid gwybodaeth (argymhelliad 9); y Cynllun Hawliau Pobl Ifanc (argymhelliad 10); gwasanaethau gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg (argymhelliad 12); Mae cyfleoedd i wrthbwysu rhywfaint o'r buddsoddiad ychwanegol hwn, er enghraifft drwy ystyried y potensial i gydweithredu'n rhanbarthol er mwyn lleihau unrhyw dyblygu gweithgarwch.
- Costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â datblygu mathau newydd o lywodraethiant a mathau newydd o ddarpariaeth. Er enghraifft, bydd angen amser ac egni gweinyddol er mwyn gwneud y canlynol: creu strwythur llywodraethu a arweinir gan bobl ifanc ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 1); datblygu'r ddeddfwriaeth i gefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid (argymhelliad 2); creu gweledigaeth i bobl ifanc Cymru (argymhelliad 3). Er y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad yn y byrdymor, rhagwelir y bydd yn arwain at ffyrdd mwy effeithiol a chydlynol o weithredu yn y tymor canolig, a fydd yn gwella effeithlonrwydd gweinyddol.